COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 23 MAWRTH 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd RM Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | N Clarke | C L C Davies |
| S Easterbrook | H Griffiths | S J Griffiths | D T Harrison |
| M L Hughes | D M Hughes | M R John | W J Kendall |
| J E Pratt | MJ Williams | R Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins a/ac MJ Kearn

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Julie Jenkins | Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

88. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorydd Pratt ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda, fel yr Aelod lleol ar gyfer Newton ac oherwydd y ffaith ei fod yn byw yn agos i safle’r cais.

89. YMWELIADAU SAFLE

PENDERFYNWYD: Cadarnhau dyddiad y Dydd Mercher, 03 Mai, ar gyfer archwiliadau safle arfaethedig yn codi yn y cyfarfod, neu wedi eu nodi ymlaen llaw gan y Cadeirydd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

90. CYMERADWYO’R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, dyddiedig 9 Chwefror 2023, fel cofnod gwir a chywir.

91. SIARADWYR CYHOEDDUS

Doedd dim siaradwyr cyhoeddus.

92. TAFLEN DDIWYGIADAU

PENDERFYNWYD: Derbyniwyd y Daflen Ddiwygiadau gan y Cadeirydd fel eitem frys dan Ran 4, paragraff 4 o Reolau Gweithdrefnau’r Cyngor.

93. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Nodi Canllawiau amlinellol y Pwyllgor Rheoli. Datblygu.

94. P/22/588/RLX - YSGOL SANT IOAN, STRYD YR EGLWYS, NEWTON, PORTHCAWL CF36 5SJ

PENDERFYNWYD: Gohirio'r cais uchod er mwyn caniatáu i swyddogion geisio eglurhad pellach gan y datblygwr ynghylch dyfnder y pridd, ei addasrwydd ar gyfer plannu coed a'r posibiliadau ar gyfer tirlunio ychwanegol. Gofynnodd yr aelodau hefyd i'r datblygwr drafod cyfraniadau cymunedol gyda Chyngor Tref Porthcawl y tu allan i'r broses gynllunio.

Cynnig:

Amrywiad ar Amod 1 o P/21/211/RLX – Cynlluniau i symud/cadw coed a chynllun tirlunio

95. APELIADAU

PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r apeliadau a ddaeth i law ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y'u dangoswyd yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.

(2) Bod yr Arolygydd, a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apeliadau canlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd i'w Gwrthod:-

a. Rhif yr Apêl – CAS-02102-T9M5R1 (1961)
Testun yr Apêl – Datblygiad preswyl gyda maes parcio, tirlunio a gwaith atodol – Tir i'r gogledd ac i'r dwyrain o Cypress Gardens, Porthcawl.

b. Rhif yr Apêl - CAS-02058-H2T2R2 (1959)
Testun yr Apêl – Newid defnydd o Ddosbarth Defnydd B1/B2 i Ddosbarth Defnydd D1 (Clinig Iechyd), Uned 1A a 2A Heol Ffaldau, Ystad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr

c. Rhif yr Apêl - CAS-02071-B9C1R9 (1970)
Testun yr Apêl – Tir blêr, Hen Dŷ Pwmpio, Heol Faen, Maesteg

d. Rhif yr Apêl - CAS-02346-D9Y3L9 (1976)
Testun yr Apêl - Garej ar wahân o flaen yr eiddo, Stryd Fawr, Trelales

e. Rhif yr Apêl - CAS-02392-C5M3H6 (1980)
Testun yr Apêl – Cadw sied a ffens yn yr ardd flaen, 5 Clevis Crescent, Porthcawl.

f. Rhif yr Apêl - CAS-02421-S3S7F6 (1981)
Testun yr Apêl – Ailfodelu annedd, llawr 1af gyda dormer a tho brig a ffryntiad gwydr deulawr; addasiadau ac estyniadau i'r llawr gwaelod, 1 The Whimbrels, Porthcawl

(3) Bod yr Arolygydd, a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apeliadau canlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt gael eu Caniatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau oedd

wedi eu cynnwys yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau:-

a. Rhif yr Apêl - CAS-02159-S2N0T9 (1971)
Testun yr Apêl – Estyniad i'r ystafell fwyta, 9 Dyffryn Oaks Drive, Pencoed.

b. Rhif yr Apêl - CAS-02051-R7H6K0 (1958)
Testun yr Apêl – Amrywio Amod 1 o P/21/420/FUL – Dyluniad diwygiedig rhandy Nain, 15 Rhodfa'r Gorllewin, Porthcawl.

c. Rhif yr Apêl - CAS-02130-Q2Z4J5 (1965)
Testun yr Apêl - Amrywio Amod 1 a dileu Amod 4 o P/19/371/FUL (Addasu arfaethedig (gan gynnwys estyniadau) 2 ysgubor cerrig a thir cysylltiedig yn 2 annedd gyda gardd breifat a iard ar gyfer lleoedd parcio cysylltiedig) tir rhwng Heol y Pîl a Heol Fulmar, Notais, Porthcawl.

(4) Bod yr Arolygydd, a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd iddi gael ei Chaniatáu ar sail G, yn ddarostyngedig i'r Amodau oedd wedi eu cynnwys yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau. Cafodd yr orfodaeth ei chadarnhau:

Rhif yr Apêl - CAS-02021-G5L2F4 (1957)
Testun yr Apêl – Adeiladu anawdurdodedig honedig, 3 Clevis Crescent, Porthcawl.

(5) Bod yr Aelodau'n gofyn am gael ystadegau yn ymwneud â pherfformiad apeliadau, fel rhan o'r wybodaeth am apeliadau yn y dyfodol.

96. COFNOD HYFFORDDIANT

PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau yn amlinellu'r sesiynau hyfforddi oedd ar ddod ar bynciau allweddol ym maes Cynllunio a Datblygu.

97. EITEMAU BRYS

Dim.